**Enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y CCYSAGauC (25 Mehefin 2015)**

**Nominations for the position of Vice Chair for the Wales Association of SACREs (25 June 2015)**

**Phil Lord CYSAG Sir Ddinbych**

Graddiais ym 1999 â gradd BA (Anrhydedd) mewn Diwinyddiaeth ac Offeiriadaeth Gristnogol o Brifysgol Manceinion. Ar ôl cwblhau fy nghwrs gradd, ymrestrais ar gwrs dwy flynedd yn arwain at Dystysgrif Addysg Traws-Cyfnod i Raddedigion, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2/3, yn Didsbury, Manceinion. Cefais brofiad o addysgu dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Ar ôl penderfynu fy mod yn dymuno canolbwyntio ar fy mhwnc gradd, trosglwyddais i gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion a oedd yn canolbwyntio ar Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd. Cefais fy mhenodi'n athro AG yn ysgol bechgyn Sandbach yn 2002. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, gwneuthum gais llwyddiannus am swydd Pennaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol Uwchradd yr Esgob Heber, Malpas. Tra'n gweithio yn yr ysgolion hynny, cydweithiais yn agos â'r Ymgynghorydd AG, yn datblygu adnoddau TGCh ac yn cyflwyno HMS ar ran CYSAG Swydd Gaer. Ym mis Medi 2007 deuthum yn Bennaeth AG yn Ysgol John Bright, Llandudno. Yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol, cefais gyfle i weithio am gyfnod hir gydag ymgynghorydd AG sir Conwy, Gavin Craigen, yn datblygu deunydd cyfarwyddyd ynglŷn â chwricwlwm 2008. Bu hyn yn gymorth i mi greu cynlluniau gwaith Cyfnod Allweddol 3 yn fy adran fy hun, a chydnabuwyd hynny gan Estyn ym Mawrth 2009 pan ddyfarnwyd 'Gradd 1' i ni. Gwneuthum gais llwyddiannus am swydd yr ymgynghorydd AG dros Gonwy, Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn ystod tymor yr hydref, 2009. Ers hynny rwyf wedi cymryd rhan yn y gwaith o fonitro ysgolion ar ran CYSAG yn ogystal â darparu cymorth pynciol fel swyddog awdurdod lleol. Rwyf wedi darparu cymorth targed yn yr holl gyfnodau, gan gynnwys Arweiniad i'r Cyfnod Sylfaen, a diwrnodau Cyfnod Allweddol 2 yng Nghadeirlannau Bangor a Llanelwy, ac wedi creu uned bontio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2/3. Rwyf wedi cynorthwyo athrawon drwy'r broses Sicrhau Asesiadau Athrawon yng Nghyfnod Allweddol 3. Rwyf wedi trefnu ac wedi cyflwyno diwrnodau adolygu ar gyfer TGAU, a chynadleddau diwrnod ar gyfer Blwyddyn 12. Ar hyn o bryd, rwyf yn gweithio fel arweinydd systemau ar gyfer GWE.

Fel Swyddog i dri ChYSAG, aelod pwyllgor gwaith y CCYSAGauC, ac Is-gadeirydd PYCAG, yr wyf yn mynychu cyfarfodydd tymhorol CCYSAGauC, ac rwyf wedi cyfrannu at nifer o'r rhain.

**Phil Lord Denbighshire SACRE**

I graduated in 1999 with a BA (Hons) degree in Theology and Christian Ministry from the University of Manchester. After completing my degree I enrolled on a two- year Cross Phase Key Stage 2 /3 Postgraduate Certificate in Education at Didsbury, Manchester. I gained experience teaching learners in both junior and secondary schools. After deciding that I wanted to concentrate on my degree subject, I transferred to a PCGE concentrating on Secondary School Religious Education. I was appointed as a teacher of RE at Sandbach boys school in 2002. I applied and secured the post of Head of Religious Education in Bishop Heber High School, Malpas, two years later. While working in those schools, I worked closely with the RE Advisor, developing ICT resources and presenting INSET on behalf of Cheshire SACRE. In September 2007 I became the Head of RE at Ysgol John Bright in

Llandudno. During my time at the school I was able to work at length with Conwy's RE advisor, Gavin Craigen, developing guidance material relating to the 2008 curriculum. This helped me to create Key Stage 3 schemes of work in my own department, recognised by Estyn in March 2009 when we gained 'Grade 1'. I applied for and secured the post of RE advisor for Conwy, Flintshire and Denbighshire in the autumn term, 2009. In that time I have been involved in monitoring schools on behalf of SACRE as well as providing subject support as a local authority officer. I have provided target support at all phases, including Foundation Phase Guidance, Key Stage 2 days at both Bangor and St Asaph Cathedrals and the creation of a Key Stage 2/3 bridging unit. I have supported teachers through the Key Stage 3 Securing Teacher Assessment process. I have organised and presented GCSE revision days and Year 12 day conferences. I now work as a Systems Leader for GWE.

As Officer to three SACREs, member of the WASACRE Executive Committee and Vice Chair of NAPfRE I regularly attend the termly WASACRE meetings and have contributed to a number of these.